

Taflen Waith Rhifau Cyfeiriol

Enw:

1. Cyfrifwch:

- (a) $9 + -7$ (b) $-4 - 3$
 (c) $-15 + -8$ (ch) $-7 + 4 + -6$
 (d) $-4 + 0$ (dd) $15 - 24$
 (e) $35 - -7$ (f) $-13 - -6$
 (ff) $-143 - -47$ (g) $7 - -14 + -6$

2. Ysgrifennwch y ddau derm nesaf yn y patrymau rhif yma.

- (a) 57, 44, 31, 18,, (b) -15, -10, -5,,
 (c) -1, -1, -2, -3, -5, -8,, (ch) -1, -4, -9, -16,,

3. Cyfrifwch:

- (a) 7×-8 (b) -3×9
 (c) -6×-9 (ch) 4×-20
 (d) 0×-5 (dd) -4×-1
 (e) $(-3)^2$ (f) $1 \times -2 \times -3 \times 4$
 (ff) $1 \times 1 \times -1 \times -1$ (g) 11×-9
 (ng) $-2 \times -2 \times 3$ (h) $(2 + -4) \times -3$

4. Mae gan ddyn £39 yn ei gyfrif banc. Mae'n ysgrifennu siec am £97.

O sawl punt mae o yn y **coch** (*overdrawn*)?

.....

5. Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r tymheredd am hanner dydd mewn nifer o wahanol ddinasoedd ar Ionawr 25ain.

Dinas	Chicago	Montreal	Paris	Oslo	Wien
Tymheredd	-3°C	-10°C	0°C	-1°C	-2°C

Dinas	Copenhagen	New York	Glasgow	Reyjavik	Boston
Tymheredd	-6°C	-4°C	-2°C	-12°C	-4°C

Ym mha un o'r dinasoedd hyn mae'r tymheredd **uchaf** am hanner dydd?

.....

6. Cwblhewch y grid rhannu yma.

\div	-4		2	
24	-6		12	
				-64
	4	-2		
			-16	32

7. Sawl gradd o wahaniaeth sydd rhwng y tymereddau nos a dydd yma?

- (a) 3°C ag 16°C (b) -8°F a 7°F
 (c) -14°C a -5°C (ch) -19°C a 34°C

8. Tri chornel sgwâr yw $(3, -6)$, $(-1, -2)$ a $(3, -2)$. Beth yw'r llall?

.....

9. Gwir neu Gau (*true or false*)?

- (a) $9 > -12$ (b) $-5 > -2$
 (c) $-30 > 25$ (ch) $0 > 8$

10. Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r lloriau uchaf ac isaf mewn 4 maes parcio gwahanol. (Mae'r lloriau negatif yn lloriau tanddaearol).

Maes parcio	A	B	C	Ch
Llawr uchaf	5	2	2	3
Llawr isaf	1	-1	-3	-1

Pa faes parcio sydd yn cynnwys y mwyaf o loriau?

.....

11. Ysgrifennwch y rhifau hyn yn ôl trefn eu maint, **gan ddechrau gyda'r lleiaf**.

2, -1, 0, -4, 1

.....

12. Ysgrifennwch y rhif **-5063** mewn geiriau.

.....